Gair Bach Bethlehem 57

Rhifyn Canol Hydref 2026

www.bethlehem.cymru [Hefyd ar BlueSky @tycwrddbethlehem.bsky.social Gwaelod-y-garth]
Arbedwch inc a phapur! Peidiwch ag argraffu hwn – dim ond ei ddarllen ar-lein.)



Sôn am haf a hanner!

Gorfoledd a galanas!





Allech chi ddim fod wedi gallu dychmygu cymaint o ddigwyddiadau o bwys o fewn dau blwy' o bopty Afon Taf - a hynny i gyd mewn un tymor crasboeth.

Martin Huws – ie, ein Martin Huws ni yma ym Methlehem – yn cipio coron Prifwyl Y Garreg Las. Fis cyn hynny, ei gyd-bentrefwr yn Ffynnon Taf, **Alwyn Harding Jones** – ie, ein Alwyn ni yma - yn cael ei gadeirio yn Eisteddfod Pontypridd. Ond rhwng y ddau achlysur yna, y llifogydd annisgwyl o grombil y Garth Bach yn achosi cymaint o loes i drigolion yng Ngwaelod-y-garth.

Rhagor am hyn i gyd yn y rhifyn hwn. Ond nid dyna i gyd sydd yma ychwaith:

Newyddion + Lluniau + Erthyglau + a sawl ecsliwsif!

gan gychwyn gyda phrofiadau Prifardd y Goron – ar y dudalen nesaf un!

Yn ei eiriau ei hunan! **(ecsliwsif i'r Gair Bach)**

Y Diwrnod Mawr

Argraffiadau Martin Huws o Ddiwrnod y Coroni yn Eisteddfod y Garreg Las



Dihuno am naw fore Llun, yr olygfa o stafell wely'r tŷ Airbnb yn Aberporth yn drawiadol, arfordir Bae Ceredigion hyd at Ynys Enlli. Ond ro'n i ar bige'r drain oherwydd y seremoni. Brecwast ar hast, muesli a ffrwythe, banana, mefus, cyn cered yn glou lawr y tyle i fainc ar lan y môr er mwyn trial ffrwyno'r nerfe. Llwyddo ond dim ond i radde.

Gadel y tŷ am chwarter i ddeuddeg. Ein ffrindie agos Iwan o Aberteifi ac Esme o Aberporth, gŵr a gwraig yn byw yn Y Creigie, yn mynd â ni i'r Maes mewn car BMW du. Iwan yn becso ychydig am y traffig ond y daith yn hwylus i'r maes parcio gan fod y system oleuade tri-chyfeiriad yn effeithiol. Yr her fwya fyddai cofio ble oedd y car wedi ei barcio.

I mewn â ni drw'r fynedfa. Codi llaw ar gyn gydweithiwr yn y BBC a'i hwyneb yn awgrymu ei bod yn synhwyro bod 'rhywbeth yn y gwynt'. Ni'n pedwar yn penderfynu yfed a byta, coffi a brechdane caws o gwmpas bord bren ar bwys lle delfrydol, y tai bach.

'Dim clem'

Crwydro wedyn, draw i'r Lle Celf, edmygu gwaith Aneirin Jones, sylwi bod ei fab, Meirion, yn cynnal gweithdy brwd i bobol ifanc mewn stafell ochor. Cwrdd ag Eifion Glyn, sy'n procio'n chwareus am wybodaeth ac yn cyfadde ei fod wedi colli ei wraig, Joy. Ymhen pum munud wy'n cwrdd â Joy yr ochor arall i'r arddangosfa lle ma' hi'n gweud: 'Dwi wedi trial ffono fe bump o withe.'
Iwan a fi'n edrych ar ddarn o gelf sy' braidd yn haniaethol a fi'n gofyn: 'Beth ma' hwn yn cyfleu i ti?' Yr ateb yw: 'A bod yn onest, dim clem.'

Glaw'n taro'r to'n sydyn, pobol yn arllws i mewn er mwyn cysgodi. Y seremoni'n agosáu, yn dechre am bedwar. Wy'n sylweddoli:

i) 'mod i moyn mynd i'r tŷ bach,
ii) 'mod i heb got a
iii) bod dim modd mincyd ymbrelo.

Erbyn hyn, ma'n dri o'r gloch. Y cyngor oedd cyrredd y Pafilwn erbyn dau o'r gloch ar ddechre Cystadleuaeth Towyn Roberts ond doedd hyn ddim yn gyson â phledren orweithgar. Cwt hir tu fas i'r Pafiliwn, felly wy'n dangos darn o bapur sy'n cynnwys neges am y fuddugoliaeth, ac i mewn â ni. Yna daw neges destun oddi wrth Elen, y Cyfarwyddwr a'r Trefnydd Artistig, yn dweud taw 57 yw rhif y sedd (rhybudd hefyd i'r dyn camera o fla'n llaw).

Y stiwardiaid, Sioned a Rhian, yn hebrwng fi a Nest i'n sedde a Rhian yn dweud; 'Does dim golwg nerfus arno fo.' 'Fel hyn ma' fe,' medd Nest, 'fel heddi a fory.' Ma'n debyg 'mod i'n llonydd gan syndod.

'Iach'

Y seremoni'n dechre. Wy wrth 'y modd yn gryndo ar araith Wyddeleg Ielia Ni Chinnéide o'r Oireachtas. Y cynrychiolydd o Batagonia, Ivonne Maes Llaned, yn arfer dysgu gyda Nest yn Ysgol Rhydygrug, Aberfan. Beirniadaeth Damian Walford Davies yn gynhwysfawr ac ar un adeg wy'n meddwl 'mod i ddim wedi ennill ond y ffaith fod wyth cystadleuydd yn deilwng o'r Goron yn dangos pa mor iach yw stad barddoniaeth Gymraeg yn y mesure rhydd.

Yr Archdderwydd yn galw ar 'Fango' i sefyll ar ei dra'd. Wrth neud hynny, wy'n twmlo cymysgedd o emosiyne, ofan a balchder. Daw tair menyw i'm hebrwng, un yn rhybuddio: 'Codwch y clogyn neu mi fyddwch yn baglu ar y grisie.' Cyrredd y llwyfan, yr Archdderwydd yn cyfarch cyn gofyn: 'Shwd y'ch chi'n gweud y ffugenw, **Fan**go neu Fan**go**?' Wy'n sylwi ar Elen a Dylan, gwneuthurwyr y Goron, yn y gynulleidfa ac yn codi bys bawd. Wedyn mae Robin McBryde, Ceidwad y Cledd, yn gofyn: 'Wyt ti'n fodlon symud cam ymlaen?' Am 'mod i'n rhy agos, mae'n debyg, at y cleddyf.

A wedyn? Gadel y llwyfan, gorymdeithio, cyfres o gyfweliade teledu, radio, papure newydd. Trafodeth fuddiol gyda'r beirniad ar raglen radio *Tocyn Wythnos* ac ro'dd gweddill yr wythnos fel canfasio cyn etholiad wrth shiglo llaw â chymint o bobol. Diolch i bawb am eu cyfarchion a'u cefnogaeth.



Wrth longyfarch Martin yn galonnog, gawn ni gyflwyno llun ecsliwsif hefyd – o ddau fardd y dudalen flaen, ynghyd â'r ddwy sy'n gefn iddyn nhw, sef Nest ac Angharad, yn y gynulleidfa yn Eisteddfod Pontypridd – cyn i Alwyn Harding gael ei gyhoeddi fel Bardd y Gadair.

Fe fyddwch eisoes wedi gweld gwaith buddugol Martin yn y Cyfansoddiadau. Yn awr at gerdd fuddugol Alwyn Harding Jones – ei gadair gyntaf. (Gan ei fod yn ffan o Bob Dylan, sef Robert Zimmerman, nid rhyfedd iddo ddewis "Zim" fel ei ffugenw!)
Felly, dyma hi –

Breuddwyd

Dylan,
yn rhwygo geiriau
o ddyfnder ei fod,
i adrodd hanes Medgar.
Saethwyd, llofruddiwyd
am sefyll,
am siarad,
am liw ei groen.
A llais tyner Baez
yn gwau
drwy nodau miniog Bobby.

'Pam mae'r ffilm yn ddu a gwyn, Dad?'
Trigain mlynedd yn diwygio,
a'r lluniau di-liw
wedi hen lifo heibio.
Ond hiliaeth -
staen na fyn ildio.

'Pam canu fel hyn, ac ynfau'n wyn?'
Athrylith,
fel drych yn y tywyllwch:
a'i gân
yn alwad am degwch.

'A'r un sy'n fraethu?'
Brenin heb goron -
llais dwfn ag awdurdod
yn dod o waelod calon.
A chred ddigon cryf
i garthu casineb
o gylla dyn.

Anogai wlad i ddeffro,
a mynnu,
fesul un,
na fydd neb
yn ddieithryn.

'A'i freuddwyd?'
Bechgyn a merched duon
yn dal dwylo â'r gwynion.
Heb rwystr.
Heb ofn.

Plant y caethwas,
a phlant y meistr
o amgylch un bwrdd.
Torri bara, rhannu gwin,
un teulu yn gytûn.

Muriau sy'n gwahanu
brawd wrth frawd
yn chwalu.
A lleisiau'n taranu -
'o'r diwedd, dyma ryddid'.

'Pam y dagrau, Dad?'
Ei lais dwfn
yn cyffwrdd f'enaid.
Llais gobaith heb ei ail,
llais gwaith
a ddeffrodd fyd,
ond hir fu'r disgwyl.

Trwy waed, chwys a dagrau,
daeth Arlywydd;
gweledigaeth yn ei ysbryd,
disgleirdeb ar ei groen.

Ond hiliaeth ddi-baid
dros erw a thras
a feithrinai lid a phoen.

Cafwyd buddugoliaeth,
do, am gyfnod byr.
Yn ei dro daeth bwystfil -
casineb yn mer ei esgyrn,
a'i fryd ar chwalu'r byd.

'Oes yna ddyfodol, Dad?'
Trwy ffydd
a llwybrau di-drais
fe ddaw'r freuddwyd
yn ffaith.

Gwaith,
nid geiriau,
a ganna'r staen.
Ac mae'r nod yn glir -
brawdoliaeth i flodeuo,
a chyfiawnder i lywio'r byd.

Zim

Mae'r lle gwag hwn wedi ei gadw i'ch cyfraniad chi yn y rhifyn nesaf!

Gair gan Delwyn

Diwrnod Arbennig. Diwrnod Arferol.

Nawr, dwi'n siwr bo' chi gyd yn ymwybodol bod y cyntaf o Hydref yn ddiwrnod arbennig. Pam? Wel, am ei fod e'n Ddiwrnod Rhyngwladol Pobol Hŷn!!! Jesd gweud! Ond nid jesd 'ny, mae hefyd yn Ddiwrnod Rhyngwladol Coffi (a finne'n meddwl bo' pob dydd yn ddiwrnod rhyngwladol coffi erbyn hyn!) Diwrnod Rhyngwladol Llysieuaeth, Cerddoriaeth a Chardiau Post. Diwrnod Ffyrst Clas! Ond nid i bawb.



Yn yr Wcrain, mae hefyd yn ddiwrnod i ddathlu'r Amddiffynwyr, diwrnod i gofio'r milwyr ac eraill a fu farw neu a anafwyd wrth amddiffyn y wlad yn ystod y rhyfel yn erbyn Rwsia, rhyfel a ddechreuodd nôl yn 2014 pan ymosododd Rwsia ar y Crimea. Wedi'r ymosodiad fe dynnwyd baneri'r Wcrain i lawr, baneri glas a melyn, y lliwiau'n dynodi awyr las uwch caeau ŷd, neu yn ôl dehongliad arall, glas i ddynodi dŵr a rhyddid, melyn i ddynodi tân a doethineb dwyfol. Yn lle'r baneri deuliw, fe godwyd baneri trilliw Rwsia. Eto, lliwiau ag arwyddocâd -coch yn dynodi cariad at famwlad, glas yn dynodi ffydd a gwirionedd a'r Forwyn Fair, ac ar ben y ddeuliw yna - gwyn, yn dynodi purdeb a heddwch, ie heddwch! Baner â lliwiau sy' wedi hen golli eu hystyr erbyn hyn, weten i.

Ymhen y mis mi fydd hi'n ddiwrnod y Cadoediad, a bydd dwsinau o faneri milwrol yn cyhwfan ar draws Cymru a gwledydd Prydain i gofio'r rhai a laddwyd neu a anafwyd mewn brwydrau ers y Rhyfel Byd Cyntaf, a waeth i mi gyfaddef; fel sy'n digwydd bob blwyddyn, mi fydda' i'n cael fy nhynnu'r naill ffordd a'r llall ar y diwrnod, yn amau gwerth ac ystyr yr holl rwysg a'r martsio a chwifio baneri, ond wedyn yn cydymdeimlo ac ymfalchïo a rhyfeddu a thristáu o gofio'r aberth a'r dewrder, ynghyd â'r colledion a'r gwastraff bywyd a fu ers y "Great War" dros ganrif yn ôl. Ac yn llygad fy nghof mi fydda' i'n gweld fy nhad yng nghysgod y Senotaff yn Aberdâr yn cynnig "salute" ar fore Sul, i gofio'i gyfeillion yn yr RAF na ddaethant yn ôl.

Bydd dim dathliadau nac areithiau yn yr Wcrain ar yr unfed ar ddeg o Dachwedd, ond mi fyddai'n dda pe bai'r byd yn ystyried yr hyn ddywedodd yr Arlywydd Zelensky ar Ddiwrnod Annibyniaeth yr Wcrain nôl ym mis Awst eleni, sef, taw'r bygythiad mwya' i'r Wcrain oedd hyn, nid yr amheuaeth y byddai milwyr y "front line" yn colli'r dydd, na chwaith y byddai pobl y wlad yn ildio, ond y byddai'r byd yn dechrau credu bod rhyfel yn NORMAL ... bod rhyfel yn rhywbeth arferol.

Ar yr unfed awr ar ddeg o'r unfed dydd ar ddeg o'r unfed mis ar ddeg mi fydd 'na funud o dawelwch . I gofio. Yna, wedi'r cofio, mi fyddwn ni gyd yn bwrw mlaen gyda'n diwrnodau arferol, normal.

Am naw o'r gloch y bore 'ma, fel bore ddoe, ac echdoe, a bore fory, a bore drennydd, a thradwy, a phob bore arall am bwy â ŵyr ba hyd, bydd pobl yr Wcrain yn oedi, yn oedi ac yn cynnig munud o dawelwch i gofio'r rhai sydd wedi colli eu bywydau yn y rhyfel yn erbyn Rwsia. Munud o dawelwch dyddiol, cyn bwrw mlaen â'u diwrnod a'u bywyd arferol. Heblaw wrth gwrs, does dim y fath beth â diwrnod a bywyd arferol i gael mewn gwlad dan gysgod rhyfel.

Delwyn Sion

Suliau Hydref hyd Ragfyr

Hydref
4 – Delwyn Sion (cymun)S
11 – Y Parchedig Jeff Williams
18 - Diolchgarwch
25 - Sul Adferiad (
(dan ofal Wynford Ellis Owen)

Tachwedd
1 – *(I'w gadarnhau)*
8 - Parchedig Robert Owen Griffiths
15 - Marc John Williams
22 – Y Parchedig Gethin Rhys
29 – Y Parchedig Dafydd Andrew Jones

Gwella'r system sain

Fe fyddwch yn siŵr o fod yn ymwybodol fod y system sain ym Methlehem yn gallu bod yn ddiffygiol ar brydiau. Mae ein trysorydd, Peredur a'n harweinydd, Delwyn, wedi bod mewn trafodaethau gyda chwmni o arbenigwyr ac maen nhw'n awyddus i gael ateb i un cwestiwn allweddol:

Os oes gennych chi offer i gynorthwyo'ch clyw, ydych chi wedi bod yn defnyddio'r botwm i diwnio i'r gylched (loop) yn ddiweddar? Oes rhywun ohonoch a fyddai'n dymuno diweddaru'r "lwp glywed" draddodiadol neu gyswllt Blue tooth gyda'r system sain?

Rhowch wybod i PEREDUR neu DELWYN , os gwelwch yn dda – ar lafar enu drwy e-bost at: pwtevans@gmail.com.

Brysiwch wella!

Da deall fod dwy o aelodau Bethlehem, sydd wedi bod yn yr ysbyty'n ddiweddar, wedi cael dychwelyd adref erbyn hyn.
Mae Elinor, merch Ann ac Ian Hughes, Pentre-poeth, bellach yn ôl yn ei fflat yn Llandaf ar ôl cyfnod yn ysbyty.
Dyna hefyd hanes Ann McMillan fu'n cael triniaeth yn ddiweddar. Ymunodd Ann a'i phriod, John, â Bethlehem ym mis Ebrill 2025 – cyn hynny, roedden nhw'n byw yn ardal Castell Nedd.

CWRDD CHWARTER
YR ANNIBYNWYR
YN EFAILISAF

Cynhelir y Cwrdd Chwarter nesaf yn y Tabernacl, Efailisaf nos Fercher 4 Tachwedd am 6.30yh.
Bydd staff Ty John Penri yn bresennol ac yn ein hannerch.
Yna, ar **ddydd Iau, 5 Tachwedd, rhwng 10 y bore a 3 y prynhawn bydd Swyddfa Symudol TJP yn y Tabernacl** eto a chroeso i chi fynd yno am sgwrs, neu i drafod materion gyda swyddogion yr Undeb. Strwythur anffurfiol fydd i'r diwrnod ond, pe dymunir, gellir trefnu amser penodedig gyda'r staff y noson cynt. Gellir trefnu amser apwyntiad, pe dymunir,



Yr Ysgol Sul yn ail-ddechrau

O fewn munudau ar ôl iddyn nhw fod yn rhan o'r band yn yr oedfa ac yn gwylio'r bedydd (gweler y lluniau hynny ar y dudalen nesaf), roedd mynychwyr yr Ysgol Sul yn brysur gyda'u gwaith celf. Dyma gip ar rai ohonyn nhw ar Sul cyntaf mis Hydref eleni.

Oedfa Gymun Hydref a Bedydd Tomos Meilir





Seren y bore, Tomos Meilir, ynghyd â'i rieni, Gwenllian a Meilir gyda Delwyn ac (isod) Alaw fu'n ledio emyn y plant a'r band fu'n cyfrannu ac yn dystion i'r cyfan.





a chip ar rannau o'r gynulleidfa, cyn ac yn ystod yr oedfa







Y linc i'r recordiad ar Youtube: https://youtu.be/psVe6xMVU6w

Bore ym Mhen-y-bont ar Ogwr

Sul Cyfundeb De-ddwyrain Cymru 2026

Rhodri-Gwynn Jones



Papur Wythnosol Gofalaeth Glannau Ogwr

KOINONIA

Gofalaeth Glannau Ogwr

Rhifyn 175 Medi 27, 2026

Rhythm Bywyd

Foxtrot, y Tango a'r cha-cha-cha! Mae Strictly Come Dancing yn ôl ar y teledu gyda'r holl glitter a'r sequence. Bydda i wastad yn edmygu'r rhai bydd yn mynd ati wythnos ar ôl wythnos i ddysgu dawns newydd. Mae rhywbeth hynod o apelgar am wylio dau berson yn dysgu symud gyda'i gilydd, gwrando ar y gerddoriaeth a dod o hyd i'r rhythm.

Mae rhythm nid yn unig mewn dawns ond ym mhob agwedd o fywyd, ein perthynas, ein bywyd eglwysig, ein perthynas gyda Duw â'r greadigaeth. Mae gan byd natur ei rhythm ei hun. Daw'r dydd ar ôl y nos. Mae'r llanw yn codi ac yn cilio. Mae'r tymhorau'n newid. Mae adar yn mudo, blodau'n blodeuo, dail yn disgyn, ac mae'r ddaear yn gorffwys cyn i'r gwanwyn ddod eto. Mae'r greadigaeth yn llawn symudiad, patrwm a rhythm sydd wedi bodoli ymhell cyn inni gyrraedd.

Daw'r broblem fwyaf pan fyddwn yn anghofio gwrando ar y rhythm hwnnw. Ar *Strictly*, os bydd un ohonynt yn anwybyddu'r gerddoriaeth neu'n gwrthod symud gyda'i bartner, mae'r ddawns yn chwalu. Yn yr un modd, mae'r ddynoliaeth yn aml wedi ceisio gorfodi'r greadigaeth i symud ar ein cyflymder ni. Rydym yn defnyddio adnoddau'n gynt nag y gall y ddaear eu hadnewyddu. Rydym yn taflu mwy i ffwrdd nag y gall y blaned ymdopi ag ef. Rydym yn mynnu mwy a mwy. Efallai ein bod wedi anghofio rhai o'r camau.

Mae'r Beibl yn ein hatgoffa nad rhywbeth i'w ddefnyddio yn unig yw'r greadigaeth. Rydym yn rhan ohoni, ac rydym wedi ein galw i ofalu amdani. Mae gofalu am yr amgylchedd yn dechrau drwy ddysgu unwaith eto sut i ddawnsio gyda'r greadigaeth, yn hytrach na sathru drosti. Mae hynny'n golygu gwrando ar rhythm y tymhorau. Mae'n golygu cydnabod bod gan bob creadur ei le ym myd Duw.

Mae rhythm hefyd i'r bywyd Cristnogol: derbyn a rhoi, gweddi a gweithredu, gorffwys a gwaith, diolchgarwch a chyfrifoldeb. Ac efallai fod Duw yn ein gwahodd yn gyson yn ôl i'r *dancefloor*. Nid i ddawnsio ar ein pennau ein hunain, ond gyda'n gilydd —gyda'r greadigaeth, a gyda Duw.

Cynhaliwyd Sul capeli Cyfundeb De-ddwyrain Cymru eleni ar Fedi'r 27ain yn y Tabernacl, Pen-y-bont ar Ogwr.

Arweiniwyd y Defosiwn ar y cychwyn gan y Parchedig Robin Samuel a chyflwynwyd neges fer ond pwrpasol - "*Rhythm Bywyd*" - gan y Parchedig Dylan Rhys Parry (gweler y llith yn "Koinonia", papur wythnosol Gofalaeth Glannau Ogwr. – *ar y chwith*)



Thema'r Sul oedd "*Ymrwymo i Fywyd*" a chafwyd bore hynod ddiddorol, gyda chyflwyniadau ar y "Pum Peth Personol" gan y Dr Fiona Gannon, ac ar waith ARocha gan Delyth Higgins.

(parhad ar y dudalen nesaf)

Yn ogystal, 'roedd arddangosfa o waith celf gan David Robinson, artist lleol sy'n aelod yn y Tabernacl, ar y thema "*Mae'n Werth y Byd*".



[Tydi'r printiau ddim yn annhebyg i'r posteri a baratowyd gan ein hartist preswyl ni, Anthony Evans, ar gyfer cyflwyniad Nadolig yn 2019 sef "Nadolig yn ein byd bregus"! Mae'r posteri rheini i'w gweld yn y Festri o hyd!]

'Roedd cyfle wedyn i drafod gyda'r tri ohonynt o gwmpas y bwrdd mewn gweithdai, gyda gwahoddiad i gyfrannu ar ffurf llun, cerdd neu weddi.

Ar ddiwedd y bore daeth pawb ynghyd i gyd-ddarllen yr "Ymrwymiad" isod:-

Fel unigolion ac eglwys, ymrwymwn i:

- *Addysgu'n hunain ynghylch effaith ein dewisiadau*
- *Bod yn barod i fentro gwneud dewisiadau anodd*
- *Rhoi lles ein cymdogion byd-eang a'r blaned yn gyntaf wrth wneud ein dewisiadau*

Diolch i aelodau y Tabernacl, Pen-y-bont ar Ogwr, am y croeso ac am baratoi paned o de a choffi i bawb ar y cychwyn, ac i'r Cyfundeb am sicrhau bore arbennig o ddiddorol a chyfoes ar ein cyfer.

Eisteddfodau eto!



(chwith) 'Aur dan y rhedyn, arian dan yr eithin, newyn dan y grug' – dyna'r geiriau ysgogodd Elen a Dylan Bowen o Gasteel Newydd Emlyn wrth ddylunio coron Prifardd y Garreg Las ac mae'r brethyn o waith gwehydd o Lanymddyfri. Mae hi'n werth ei gweld eto!



(dde) Gwenni Owen Griffith un o fuddugwyr Eisteddfod Pontypridd

(isod chwith) Ein hysgrifennydd. Rhodri-Gwynn Jones ar sgrin fawr y Brifwyl. Roedd yn un o'r rhai oedd yn talu teyrnged i Penri Williams, enillydd medal R. Alun Evans, gyflwynwyd ar Sul cyntaf y Brifwyl.



(isod dde) Heulwen Jones, Ieuan Wyn a Sioned Wyn yn eu gwisg ar gyfer yr Orsedd yn Llantwd.



Rhai o oedfaon diweddar Bethlehem

... ond nid y cyfan

Mae'r gwasanaethau diweddar sydd ar fideo i gyd fan hyn: Bethlehem Gwaelod-y-garth - YouTube
Ond dyma i chi gip ar rai fu'n ein harwain mewn addoliad – heb fod yn nhrefn eu hymddangosiad!







Tri o'n plith i gychwyn – Huw Lloyd, Radur; Delwyn, sydd wedi bod yn ein harwain er 10 mlynedd Bellach (heb anghofio fod yma hefyd gefnogaeth i Arsenal yn y rhes flaen (diolch i Meilir!); ac Ian Hughes, o Bentre-poeth.









Anni yn cynorthwyo Eirian Dafydd yn ei hoedfa hi; Y Parchedig Robin Samuel; ac yna wyneb newydd i gynulleidfa Bethlehem – Sian Wyn Rees, ar ran Cymdeithas Y Beibl.
Yna isod, un arall o'n plith, gydag amrywiaeth o offerynnau cerddorol – Rhys Powys. Dewiswch chi eich hoff lun ohono i'ch llyfr lloffion!









Deunydd hel atgofion

Yn y dyddiau hynny.

Joy Glyn



Fe gyrhaeddodd tipyn o lyfre ein tŷ ni yr haf hwn, yn eu mysg cyfrole enillwyr o faes Steddfod y Garreg Las. Ond nid yn y steddfod brynes i y llyfr mwyaf gwerthfawr ond yn y Cartws, caffi a chanolfan hanes Llandoch, y pentre ble ces i fy magu. Awdur y llyfr, dan y teitl 'Yn y Dyddiau Hynny ...' , yw Gwendraeth Morgan, sef merch Mr W.G Jones, offeiriad yr eglwys ble bum i mor lwcus i fod yn aelod drwy mhlentynod. Mae'r gyfrol yn croniclo hanes ei thad a fu'n ficer yn y pentre o 1943 i 1973.

Roedd 'ficer,' fel byddai pawb yn ei alw, yn ddylanwad enfawr arna i ac aelodau'r eglwys. Roedd yn ddyn tawel a didwyll a bu ef a Mrs Jones ei wraig y tu hwnt o weithgar yn y pentref am ddeng mlynedd ar hugain. Yn allweddol oedd y ffaith ei fod wedi gwasanaethu cyhyd.

Roedd yr eglwys fel un teulu mowr a ni'r plant yn chware rhan bwysig. Byddwn yn cymryd rhan bob tro yng ngwasanaethau gwylie'r eglwys, y Pasg er enghraifft. Bryd hynny byddwn i a fy ffrind yn creu gardd Basg mas o glotas wedi eu haddurno a blode, y dair croes a'r bedd gwag.

Yn ychwanegol i wyliau'r eglwys roedd y gwasanaethe o Sul i Sul. Roeddwn yn rhan o'r côr. Roedd tua 30 ohonon ni ar un adeg. Cap a gown porffor a mam yn neud yn siwr fod fy ngholer yn wynnach na gwyn ac wedi ei startsio a bach o 'tatting' o gwmpas yr ymyl.

Roedd ffyddlondeb yn bwysig i ficer a byddai medale i'w hennill. Yn 1964 enillais i y fedal o siap croes Geltaidd yn hongian o ruban coch am nad oeddwn wedi colli un gwasanaeth y flwyddyn honno.

Bob nos Wener cynhaliwyd Cymru'r Groes, clwb i'r ieuenctid, a byddai'r ficer gyda ni yno yng nghanol y tenis bwrdd a'r biliards. Yn aml rhannai ni yn ddau dîm, darllen stori o *Reader's Digest* a cwis i ddilyn. Trefnai wylie yn yr haf i Ogledd Cymru, yr Alban ac Iwerddon.

Yn yr wythdegau fe gasglodd cyn aelodau y côr arian tuag at gael croes bren hardd i'w rhoi uwchben y pulpud i gofio am ficer unigryw iawn.

Mae'r gyfrol wrth gwrs yn bwysig i mi gan mod i'n nabod yr holl gymeriadau y sonnir amdanynt ynddo. Ond mae e'n gofnod pwysig hefyd am ei fod yn darlunio bywyd teulu eglwysig Cymreig yn hanner ola'r ugeinfed ganrif. Ac roedd teulu'r Ficerdy yn Gymreig iawn. Roedden nhw'n gefnogwyr pybyr o unrhyw beth yn ymwneud â Chymreictod yn yr ardal. Roedd y teulu cyfan – Mrs Jones oedd yn gefn i'w holl weithgaredde, eu plant Gwendraeth, a fyddai'n aml yn helpu ni i ymarfer ar gyfer y gwasanaethe, a Dyfrig ddaeth yn wyddonydd byd enwog - yn siampl i ni.

Yn fy arddege roeddwn i'n rebelio ac yn gyndyn o fynd i'r cwrdd. Ond doedd peidio â mynd i'r cwrdd ddim yn opsiwn gan fy rhieni. Heddiw rwy' mor ddiolchgar iddyn nhw ac i ddylanwad mawr Y Parch W.G. Jones, ficer. Ar y pryd doedd rhywun ddim yn ymwybodol o'r effaith. Dylanwad y dyn tawel diymhongar hwn a drosglwyddodd gymaint o werthoedd i mi. Fe ei hun wnaeth fy medyddio a'm priodi. On'd oeddwn i'n lwcus.

Beth amdani?

Oberammergau

Arwel Ellis Owen

Oberammergau. Dyna enw sydd yn sefyll yn y cof. Methu yn lân â chofio enw y pentref hwnnw yn Iwerddon lle bu rhaid i ni aros tair noson tra'n trwsio'r car, na'r ddinas yn Ffrainc lle bum mewn ysbyty wedi cael *“food poisoning”*. Pam felly mod i'n cofio Oberammergau a finna' erioed wedi bod yn agos i'r lle?

Yn Bavaria, yn yr Almaen y mae Oberammergau, a phob deg mlynedd mae trigolion y pentref yn ail greu pasiant y Pasg, yn gyhoeddus ar strydoedd, capeli â llefydd bwyta y gymuned. Sut ydw i'n gwybod hynny? Oherwydd aeth fy rhieni ar fws Clynnog â Trefor ym 1960, yr holl ffordd ar draws Ewrop i weld â chyd ddathlu'r perfformiad. Taith dramor gyntaf fy nhad â mam.



Wythnos diwetha' dyma dderbyn *“brochure”* gan gwmni teithio adnabyddus yn fy annog i ystyried ymuno yn y dathlu yn 2030! Taith 13 diwrnod, gan hedfan. hwylio â theithio mewn *"executive limousine"* am yr hanner can milltir ola' o fan geni Mozart yn Salzburg yn Awstria. Hyn i gyd am y fargen o £11,295!

Pum diwrnod gymerodd ymweliad fy rhieni, nôl â blaen o Ddyffryn Nantlle i Oberammergau. Rydw i'n cofio'r cyffro wrth baratoi am “bron i wythnos i ffwrdd”. Sut ar y ddaear oedd ymdopi gyda’r fath her? Pasbort am y tro cyntaf. Arian tramor! ”Siwrans yn erbyn beth?” Oedd y bwyd tramor yn mynd i blesio neu ypsetio? Pa ochr o'r bws oedd ore? Un neu ddau 'case'?

Mae fersiwn 2030 yn gwarantu tocyn rhes flaen gyda *"drinks in the interval"*. Rhwng golygfa cyhoeddi penderfyniad Peilat a'r croeshoelio, siawns!

Fe fu'r daith yn fodd i fyw i nhad â mam, gyda cadw'r tocynnau, y rhaglen â lluniau y camera Kodak yn archif i'w trysori. Doedd 'na fawr dim prawf gweledol bod y ddau wedi bod yn Oberammergau gan bod y *'reel'* o ffilm wedi ei neilltuo i gofnodi uchafbwyntiau y perfformiad.

Gyda llaw mae'r ymweliad yn 2030 yn cynnwys *“a personal video of you and your dearest, so that both of you are locked into this historic event”*.

Aelodau o gapeli Arfon oedd cyd-bererinion fy rhieni, i gyd yn dymuno derbyn bendith o fod yn rhan o’r dathlu crefyddol. Doedd dim o angen *“â full briefing booklet”* ar y teithwyr hyn. Mi fyddai aelodau yr Hen Gorff yn deall y dalltins wedi oes o ddarllen Y Beibl.

Nôl yn 1634 y cafwyd y perfformiad cyntaf yn Oberammergau, â hynny fel diolch gan drigolion y pentref i Dduw am eu diogelu rhag effeithiau gwaethaf y Rhyfel Tri Deg Mlynedd oedd yn rhannu Ewrop ar y pryd, ac am gadw y Pla Du (Bubonic) draw o’r pentref. Gwnaed addewid, felly, i lwyfannu'r pasiant unwaith bob deg mlynedd. Addewid sydd wedi ei pharchu trwy’r canrifoedd.

A ddylwn i ystyried dilyn ôl traed fy rhieni? Nid am bris Taith y *brochure!* Ond mae bysus Clynnog â Trefor yn dal i gludo teithwyr i bell ac agos. Tybed fyddai gan aelodau Bethlehem ddiddordeb mewn trefnu taith ymhen pedair mlynedd? Beth amdani?

Mae croeso i chi ymateb i wahoddiad Arwel neu'n wir i ysgrifennu ar unrhyw bwnc o'ch dewis i'r Gair Bach. *Mae yna sawl un o'ch cyd-aelodau'n mynegi eu boddhad ar ôl darllen am brofiadau neu weld y lluniau sy'n cael eu cynnwys. Oes stori neu lun fyddech chi'n fodlon rannu? Gwnewch adduned yn nhymor yr Hydref eleni y byddwch yn cyfrannu gair neu ddau neu ddeugant i rifyn o'r* ***Gair Bach*** *cyn hir.*

Anfonwch – ar e-bost, Whatsapp, neu femrwn at Ifan:

tycnau@aol.com / 07761826977

Tymor Newydd Y Gymdeithas

Teithiau Lliwgar Alan



Mannau hudolus a hanesyddol, golygfeydd gogoneddus, creaduriaid a phlanhigion – a'r oll heb symud o'n seddau yn y Festri! Dyna welwyd wrth i Alan Williams gyflwyno peth o hanes teithiau Cymdeithas Edward Llwyd ar hyd a lled De Cymru a'r Gororau.
Fel un sy'n arwain rhai o deithiau aelodau Cymdeithas Edward Llwyd bu Alan, yn ei ragarweiniad, yn ein hatgoffa am hynodrwydd y naturiaethwyr roddodd enw i'r gymdeithas. Roedd y botanegwr, daearegwr, hynafiaethydd a ieithegwr o gyrion Croesoswallt yn un ddatblygodd i fod yn geidwad Amgueddfa Ashmolean, Rhydychen ac yn gyfrifol am sawl taith drwy Gymru a'r gwledydd Celtaidd i gofnodi planhigion, ffosiliau a ieithoedd. Cofnododd hyn i gyd o fewn ei oes fer o 49 mlynedd hyd ei farwolaeth yn 1709.
Yr un mor gyfareddol yn ei sgwrs oedd y casgliad o luniau oedd gan Alan, gan herio'r gynulleidfa i adnabod ambell ardal, adeilad, aderyn neu flodyn. Er bod yna gynrychiolaeth o sawl ardal yn ne a chanolbarth Cymru yn y festri, roedd yn syndod i ni oll fod yna fannau mor ddifyr yn ein hardaloedd - rhai y dylen ni atgoffa'n hunain unwaith eto amdanyn nhw!
Dyna i chi'r capeli bychain diarffordd fel Soar y Mynydd, Gellionnen a Chwm Nant yr Eira. Neu'r eglwysi gyda nodweddion difyr megis y rhestr ail ryfel byd sydd yn Silian, lle cofnodir enwau pawb o'r swyddogion i'r nyrsys. Neu beth am groesi'r ffin i Lan-gain yn swydd Henffordd (Kentchurch), yr ardal sydd â chysylltiad ag Owain Glyndwr a theulu'r Scudamores? O'r unigeddau panoramig hyd at y pili palas ar flodyn, roedd camera Alan wedi eu croniclo i gyd – pob llun â'i stori a phob un wedi bod yn destun ymweliad caredigion Cymdeithas Edward Llwyd.
Oedd yna ragor? Oedd, wrth gwrs – bydd rhaid i'r rhai gollodd sgwrs Alan ei holi eto am hynodion Cors Caron, Cwm Wysg a Phantycelyn ac am ynysoedd arfordir sir Benfro a'u hadar. Os gwell gennych gychwyn nes adref, lloriwyd ambell un ohonon ni drwy ffaelu ag adnabod gogoniant Traeth y "Knap" yn Y Barri!
Ond arhoswch funud! Beth am ardal Llanwynno a Guto Nyth Bran? Ni chafodd y rhedwr yntau ei anghofio. Nac ychwaith yr englynion iddo gan Glanffrwd a Meudwy Glan Elái:

Rhedegwr gorheinyf a gwrawl – cawr
yn curo'n wastadawl
oedd Gruffydd: e fydd ei fawl
Ŵr iesin yn arhosawl.

Glanffrwd

Y garreg hon a'r geiriad – a roddwyd
I arwyddo cariad
Ar ei lwch gan wŷr ei wlad
I gyfiawn ddal ei gofiad.

Meudwy Glan Elái



Diolch o galon i Alan am orig hynod o amrywiol i agor y tymor. Diolch hefyd i Delyth (Y Barri) am lywyddu, i Rhian am ei darlleniad amserol hithau ar y dechrau ac, wrth gwrs, i bawb fu'n gweini'r te ar y diwedd.

Ifan Roberts



Llifogydd y Garth Bach



Dydd Iau olaf Gorffennaf oedd hi, a'r ardal yng nghanol cyfnod eithriadol o sych. Y peth olaf fyddech chi'n ei ddisgwyl fyddai i lifogydd daro Heol Berry yng Ngwaelod-y-garth. Os ydych chi wedi gorfod aros wrth y goleuadau traffig ar Heol Goch, yna efallai i chi gael cip ar y graith ar y llain rhwng y goedwig a'r ffordd fawr.

Mae rhai o drigolion Heol Berry yn dal heb allu dychwelyd i'w cartrefi ac yn debygol o fod felly am beth amser eto. Anodd credu fod y fath ddŵr, mwd a cherrig breision wedi tywallt o grombil yr hen ogofeydd a sianelau tanddaearol ond fel y dengys y lluniau hyn, roedd ei olion ar y ffordd yn unig yn ddigon o dorcalon . Roedd hi gymaint gwaeth ar yr aelwydydd islaw a ddioddefodd y llifogydd.







Mae ein diolch am y lluniau hyn i John Hurlow, ein cymydog ym Mhentyrch, fentrodd ar droed i waelod Heol Goch ar y bore canlynol. Mae rhain yn cofnodi un hanner o'r stori. Rydych chi o bosib wedi gweld lluniau ar y cyfryngau cyhoeddus o'r llanastr yn y tai ac mae ein cydymdeimlad mwyaf didwyll â'r rhai sydd wedi dioddef.

Fel y cofiwch, canslwyd oedfa Bethlehem ar y bore Sul gan fod gwir angen i'r gwasnaethau argyfwng gael gwneud eu gwaith yn ddirwystr.

Ifan Roberts

Perlau o'r archif

Gwaddol T W Thomas:

Rhodri-Gwynn Jones

Trwy law Olwen, gwraig y diweddar Robin Gruffydd, o'r Creigiau, y daeth bocs o bapurau i mi o "Greenhurst", Pentyrch, cartref T W Thomas – un a fu yn aelod ac yn ddiacon ym Methlehem, ac a fu farw yn 97 mlwydd oed ar Sadwrn yr 2il o Ragfyr 1998.
Isod, dyma lun o'r gwrthrych (ar y chwith) gyda'r Parchedig Ifor Rees, a oedd hefyd yn aelod ffyddlon yn ein plith ym Methlehem.



Ymhlith y papurau, ceir toriad o bapur wythnosol "Y Cymro" dyddiedig 20fed o Ionawr 1999, lle gwelir teyrnged W Emrys Evans i "Annibynwr ffraeth a fu'n tynnu ar y Presbyterian" (gweler ar y dudalen nesaf).
Bydd rhai ohonoch siŵr o fod yn cofio Emrys Evans yn hysbysebu Banc y Midland yn nosweithiol yn nyddiau cynnar S4C.

W. Emrys Evans yn cofio T. W. Thomas, dyn busnes, tribannwr a Chymrawd o'r Eisteddfod Genedlaethol a fu farw'n ddiweddar.

Annibynnwr ffraeth a fu'n tynnu ar y Presbyterian!

Bu farw y gwr annwyl, addfwyn yma yn gynnar fore Sadwrn Rhagfyr 2 yn 97 oed. Fe fu byw yn ardal Gwaelod y Garth a Phentyrch gydol ei oes, oni bai am ryw ddeunaw mis yng nghyffiniau Caerfryddin.

Chafodd o fawr iawn o ysgol — yn wir roedd hynny gafodd o yn gyfnodau dibwys iawn — cyfnod y Welsh Not mwy neu lai, ac yntau wedi ei fagu ar aelwyd uniaith Gymraeg.

Mae sôn amdano yn mynd i Ysgol y Bloggs yng Nghaerdydd, "for commercial training" ond yn ôl TW cystal iddo fod wedi aros gartref.

Ond eto, fe lwyddodd mewn ffordd arbennig iawn ym myd busnes. Mae'r Parch T J Davies yn sôn amdano fel y gwr cyhoeddus, pwerus; y gwr busnes llygadog a ddringodd i gopa cwmni Spillers — yn Ynad Heddwch ac yn gadeirydd y Fainc.

Dechreuodd ei yrfa ym Mae Caerdydd efo cwmni Cory Brothers — ar y dociau yn y Waggon Department, a'i gyflog pryd hynny oedd 3/6 yr wythnos. Ymhen ychydig amser fe ymunodd â chwmni llongau T H Griffiths ac, yn nhermau heddiw, fe deimlodd ei fod yn un o fat cats y cyfnod am fod ei gyflog wythnosol yn ddeg swllt ar hugain.

Reodd yn wr cyhoeddus o'r iawn ryw — ond droeon fe'i clywais o'n sôn am un tro trwsgwl pan oedd cyfaill iddo — oedd ddim yn gyfarwydd iawn â'r iaith Saesneg, yn ei gyflwyno mewn cyfarfod cyhoeddus fel hyn: "You will all agree with me that T W Thomas had been a public convenience to us all."

Gwr llawn hiwmor oedd TW ac os am hwyl go iawn fe fuaswn yn eich hannog i brynu y ddau gaset, Robin Gwyndaf yn olrhain hanes TW ac yn hel atgofion — hanes a storïau arbennig o ddiddorol a hwyliog am hen bregethwyr fel Mattews Ewenny, John Elias o Fôn, Thomas Dafis, Trefforest, Philip Jones, Porthcawl ac Eluseus Howell.

Fe deimlai TW ei fod yn ddyledus iawn i'w rieni. Roedd yn arferiad gan ei dad a'i fam ddefnyddio pedair jwg lystyr i gadw arian at wahanol achosion a gefnogent — un i'r Capel, un i'r Cwrdd Chwarter, un i Undeb yr Annibynwyr a'r llall i Eisteddfod Genedlaethol Cymru. O'r jwg honno y cafwyd pres i dalu am ei ymweliad cyntaf gyda'i rieni ag Eisteddfod Caerfyrddin yn 1911. Dyfed oedd yr Archdderwydd ar y pryd.



T.W. Thomas yn cael ei holi gan Robin Gwyndaf

Fe'i derbyniwyd i'r Orsedd yn y tridegau, a phan welodd yr Archdderwydd Pedrog o'n esgyn i'r Maen Llôg fe ddywedodd: "Ab Eos yw hwn. Mae ei dad, Eos y Garth, yn denor gwych a'i lais yn llenwi Capel y Parchedig R G Berry, Gwaelod y Garth."

Fe'i dewiswyd yn Gadeirydd Pwyllgor Gwaith Caerffili yn 1950, ac fe ymfalchïai TW mai yno y gweithredwyd y rheol Gymreig am y tro cyntaf. Roedd yn un o benseiri honno a diau mae dyma un o'i gyfraniadau mawr i ddiogelu cymeriad y Brifwyl.

Bu eilwaith yn Gadeirydd pan ddaeth y Steddfod i Gaerdydd yn 1960.

Mae cenedlaethau ohonom wedi ei weld yn ei wisg borffor gyda'i deyrnwialen yn rhinwedd ei swydd fel Swyddog y Llys ar lwyfannau ein Prifwyl. Gwr tal, swmpus, yn cario'i swydd fel y dymunai Cynan iddo wneud.

Bu'n Drysorydd yr Orsedd am gyfnod, yn Drysorydd Llys yr Eisteddfod am un mlynedd ar hugain, o 1955 hyd 1976, ac yn Gymrawd am dros chwarter canrif.

Gwr oedd TW a roddodd wasanath clodwiw mewn cymaint o feysydd, ac yn arbennig felly i'r Eisteddfod.

"Bu'n hael ei gymwynasau I lu o gymdeithasau."

Roedd e'n Gymro i'r carn, ac mae sôn amdano pan oedd yn aelod o Gyngor y BBC yn protestio pan baratowyd bwrdd hysbysu mawr i'w osod o flaen adeilad y BBC yn Llandaf gyda'r Saesneg yn uchaf.Newidiwyd y drefn, a hyd heddiw y Gymraeg sydd oruchaf.

Roedd yn gapelwr selog a gweithgar. Bu'n ddiacon efo'r Annibynwyr ym Methlehem, Gwaelod-y-Garth am dros drigain mlynedd. Ac eto, fe smociodd faco'n dwyn yr enw Presbyterian, er pan oedd yn un ar bymtheg oed.

Cofiaf fynd â bocs dwy owns iddo ar ei ben-blwydd yn 97 oed a thynnu ei sylw at y rhybudd ar y caead — Tobacco can cause fatal diseases . "Wel," meddai TW, "fe risciau i hi bellach."

Terfynnaf drwy ddyfynnu dwy frawddeg o erthygl amdano yn yr Ysgub o'r Wisgon gan ei Weinidog, Y Parchedig T J Davies:

"Mae cael nabod TW yn ei fro, gyda'i bobol, yn ei gapel, yn rhoi cip i chi o berson diwylliedig, ac yn dangos i chi y cyfoeth a gollwyd o Forgannwg pan gollwyd y Gymraeg a'r ffordd Gymreig o fyw. Ffenestr yw e i orffennol godidog — ac mae cael edrych drwy'r ffenestr honno, ac a fu, yn hwyl, ac yn frath sy'n sobri rhywun."

Diolch amdano, ac am gael bod yn ffrind iddo.

Ymysg y trysorau hefyd fe geir dalen yn nodi “*Geiriau a ddefnyddid gynt ym mhentre Gwaelod-y-garth tua chwarter cynta’r ganrif hon – 1900/1925”* (gweler isod*)*.



Geiriau a ddefnyddid gynt ym mhentre Gwaelod-y-Garth tua chwarter cynta'r ganrif hon -1900/1925.

Nafis (digwyddiad neu anhap drwg)
Disprad. (Roedd ghwant disprad arno i fynd gartra)
Scemran, (Polyn hir mewn cwb ffowls iddynt gysgu arno.)
Wilia (Siarad)
Melpwth ! Synnu'n fawr)
Racs jibardes (wedi mynd yn ufflon)
Woff. (Cera'n rhwydd - gera ar frys)
"wel am clywch y dyn to '. (Exclamation mark)
wel town i yn y fan 'na. do
wel dir-dh-shefoni do
Byrmanu. (Siarad yn ddi-ystyr)
Tern pic (Turnpike)
Ticinach (A fairly good number were presnt)
Cera ar y gybyldra. (Go qickly)
whilbar (Wheelbarrow)
Ponclust (Box his ears)
Ercyd. (Go and collect the milk from the pantry)
Styffaglu. (Am beth wyt ti'n styffaglu mynna - cer ifoen xx y sishwrn)
Am clywch y dyn to'. Expression of surprise.
Sulsic. (Blackpudding)
Sparip. (Spare-rib mochyn)
Dyw cato pawb ! (Exclamation on hearing some surprising news.)
Tasach chi yn y fan 'na - dyna beth wetws a wrhtoi.
Taff's WELLF Yr oghor draw - neu ffynnon def neu ardal y Orsaf station - COLLAN FFRENGID'
Pont yr Ynys. Pont Walby
Ty Yr Ynys - Ty Jeffras (am Rheolwr Y Gwaith haearn wedi bod yn byw ynddo Mr. Jefferies).
I ty reit gyferbyn a phont yr Ynys ar ahor y Gwaelod -
Ty Ifan Cwmllwydro - a godwyd tua diwedd y ganrif ddwetha wedi i Ifan dderbyn 'fforthwn' o America.
(roedd Ifan yn fardd raenus ac yn Englynwr medrus)

Ond i mi, y trysor mwyaf yw copi yn llawysgrif Cynan, ffrind agos i 'TW', yn cyflwyno trosiad o’i gerdd “Aberdaron” i’r Saesneg i ail wraig 'TW', sef Edwina.
Mae’r trosiad yn ymddangos yn “Cerddi Cynan” (y trydydd Argraffiad 1967) yn rhan olaf y gyfrol ymysg ‘Cerddi’r Atodiad’, a hynny ar gais y cyhoeddwyr er mwyn cynnwys y cerddi a ysgrifennwyd gan yr awdur ar ôl 1959.

Aberdaron

When I am old and famous
With money in my purse,
All carping critics silenced
For better or for worse,
I'll buy me a lonely cottage
And at the door shall be
The rocks of Aberdaron
And the wild waves of the sea.

When I am old and famous,
Revered as a pantaloon,
My rebel heart now placid
At the rising of the moon,
I still may be a poet,
Never despair of me
By the rocks of Aberdaron
And the wild waves of the sea.

(parhad ar y dudalen nesaf)


When I am old and famous,
Conforming to the times,
My elder muse all patterned
To little tinkling rhymes,
I still may be a poet,
Never despair of me
By the rocks of Aberdaron
And the wild waves of the sea.

For there I'll sit and listen
To the tempest at my door
Until my heart recaptures
Its wild delight of yore,
And I'll sing again with passion,
And all my songs shall be
Of the rocks of Aberdaron
And the wild waves of the sea

Trosiad i Edwina gan Saynan.

Tybed felly mai ar ei chyfer hi yn benodol y cyfieithwyd y gerdd?
Dyfalu wnawn! Chawn ni ddim gwybod mwyach!

[Bydd rhai ohonoch yn cofio i Cynan letya gyda T. W. Thomas ar drothwy ei ail-briodas ac yma, ym Methlehem, Gwaelod-y-garth, y bu'r seremoni.]*

ODLAU'R GARTH

Mewn rhifyn sydd eisoes yn gyfoethog o gerddi, diolch i Hannah Roberts am ei chyfraniadau cyson. Y tro hwn, mae hi wedi cyflwyno cerdd mewn tafodiaith Cwm Tawe. Fe ddaeth hon i'r dosbarth cyntaf yn y gystadleuaeth 'Cerdd mewn tafodiaith' ym Mhrifwyl Y Garreg Las.

CYMDOCES

"A oes un ohonoch a adnapo'r farchoges?"
ys wetws Pwyll pan welws e Rhiannon.
A dyna ni,
ar aten tafotieth,
wedi dishgyn ar Gwm Tawe,

"Otych chi'n napod y dyn?

"Ma gole l'uad fel y dydd 'da 'i 'eno"
'na wete Edna drws nesa ar nosweth loergan.
Ma'r ll'uad yn byw drws nesa i ni,
ein cymdoces agosa,
"Troi a throi yn y gofod
daw cymytog â'i olau atom",
Ma'r teid yn dod miwn,
a'r teid yn myn' mas
o dan wên y lloer,
mae cluste'r ddiar
yn grindo'n astud ar hon,
withe'n amrant 'nner cwsg
yn pipo'n y diwetydd,
withe'n belen lawn
yn shino fel aur.

Yn alffa'r blaned,
da'th ergyd 'eb un argoel
a'n clatsho ni,
yna,
darne'n denu
a phelen yn gwenu,
a dod i fyw drws nesa.
Bob mish y mae'n ein mesur,
mae hon a gweud y gwir
yn bwysig i'n bodolaeth,
daw eto 'e'fo'n 'ir.

Cusan ar wilod llythyr
a'i hala fe yn bell,
ond ma cusan dan y ll'uad
lot yn well!.

Hannah Roberts

* * * *

A dyna ni, am y tro!

Eich tro chi i gyfrannu i'r rhifyn nesaf!

tycnau@aol.com